Rhif: WG49693

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad a Galwad am Dystiolaeth

**Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yng Nghymru yn iachach**

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2024

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Medi 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and phone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2024

## Trosolwg

Ym mis Mehefin 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ba gamau y gellid eu cymryd i wella'r amgylchedd bwyd yng Nghymru a helpu i wneud y dewis iach yn ddewis hawdd: Amgylchedd bwyd iach | LLYW. CYMRU. Roedd hyn yn cynnwys cynnig i ailgydbwyso cynigion a marchnata tuag at ddewisiadau iachach i wneud dewisiadau iachach yn fwy fforddiadwy, drwy gyflwyno cyfyngiadau ar hyrwyddo a lleoli bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen, a siwgr. Gwnaethom hefyd ymgynghori ar wahân ar gynnig i gyfyngu ar werthu diodydd egni i rai o dan 16 oed: Cynnig i ddod â gwerthiant diodydd egni i blant o dan 16 oed i ben | LLYW.CYMRU

Yn dilyn ymlaen o'r ymgyngoriadau hyn, nod y cyhoeddiad hwn yw:

1. Ymgynghori ar y testun drafft arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 202X a'r cynigion polisi ar gyfer y dull gorfodi arfaethedig ar gyfer cyfyngu ar hyrwyddo a lleoli cynhyrchion uchel mewn braster, halen a siwgr yng Nghymru. Rydym yn bwriadu gosod y Rheoliadau drafft gerbron y Senedd i'w cymeradwyo erbyn diwedd 2024, gyda chyfnod gweithredu o 12 mis cyn y dônt i rym.
2. Casglu a dwyn ynghyd wybodaeth a thystiolaeth, drwy alwad am dystiolaeth, mewn perthynas â diodydd egni sy'n cael eu hyfed gan blant.

## Sut i ymateb

Cyflwyno eich sylwadau erbyn 23 Medi 2024, yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

• Llenwi ein ffurflen ar-lein

• Lawrlwytho ein ffurflen ymateb, ei llenwi a'i hanfon drwy e-bost neu yn y post i'r cyfeiriadau isod

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: PwysauIachCymruIach@llyw.cymru

**Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad neu'r alwad am dystiolaeth.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn a'r alwad am dystiolaeth neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, gall hyn gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill hefyd. Pan fo Llywodraeth Cymru'n cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion, mae'n bosibl y comisiynir trydydd parti achredig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) i wneud y gwaith. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a diogelu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod Rhan 1 o'r cyhoeddiad hwn, yr ymgynghoriad, wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ran o'ch data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

Rhagair y Gweinidog ... 5
Cyflwyniad ... 6
Rhan 1: Cyfyngu ar hyrwyddo cynnyrch uchel mewn braster, siwgr a halen yn ôl lleoliad a phris: Ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft a gorfodaeth
Nod cyffredinol y polisi ... 7
Cynnydd hyd yn hyn ... 7
Crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig ... 8
Cynhyrchion sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau ... 8
Y busnesau sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau ... 9
Gorfodi'r Polisi ... 10
Y canlyniadau a'r camau nesaf ... 13
Offeryn Statudol Drafft ... 14
Cwestiynau Ymgynghori ... 15
Rhan 2: Galwad am dystiolaeth mewn perthynas â diodydd egni sy'n cael eu hyfed gan blant
Pwrpas yr alwad am dystiolaeth ... 21
I bwy mae hyn yn berthnasol? ... 21
Canllawiau i'ch helpu i ymateb ... 21

## Rhagair y Gweinidog

Rwy'n falch o lansio'r cyhoeddiad hwn sy'n ymgynghori ar ddull gorfodi arfaethedig a thestun drafft **Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 202X,** ac sy'n amlinellu galwad ar wahân am dystiolaeth mewn perthynas â'r effeithiau ar blant o ganlyniad i yfed diodydd egni.

Yn Rhan 1 o'r cyhoeddiad hwn, mae'r ymgynghoriad hwn yn gam pwysig tuag at gyflawni'r gyfres uchelgeisiol o fesurau y gwnaethom ymgynghori arnynt yn ystod ein hymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach ym mis Mehefin 2022.

Mae dros 60% o'r boblogaeth yn byw gyda gordewdra neu orbwysau. Gwyddom fod gordewdra a gorbwysau yn gysylltiedig â llawer o broblemau iechyd corfforol a meddyliol gydol ein bywyd. Felly, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau mai hwn yw'r cyntaf mewn pecyn o fesurau i wella iechyd ein hamgylcheddau bwyd ledled Cymru ac i gynorthwyo'r cyhoedd i fyw bywydau iachach.

Fel cenedl, mae'r dewisiadau bwyd yr arweinir ni i'w gwneud yn tueddu i gynnwys gormod o galorïau a gormod o fraster, siwgr a halen. Rydym eisiau cynorthwyo unigolion i wneud dewisiadau iachach drwy gyfyngu ar hyrwyddo bwyd a diod sydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen (HFSS) a thrwy annog hyrwyddo cynhyrchion iachach.

Roedd yr ymgynghoriad blaenorol yn 2022 yn cyflwyno cynigion yn ymwneud â chyfyngu ar gynigion seiliedig ar werth ar gyfer cynhyrchion HFSS a lleoli cynhyrchion HFSS mewn lleoliadau sy'n annog pobl i'w prynu, yn y siop ac ar-lein. Roedd yn gofyn barn hefyd ar fwyta'n iachach y tu allan i'r cartref, gan gynnwys cynigion ynghylch cyfyngu ar yr arfer o gynnig ail-lenwad am ddim ar gyfer diodydd ysgafn llawn siwgr.

Prif ddiben yr ymgynghoriad newydd hwn yw gofyn eich barn ar y Rheoliadau drafft a'r cynigion polisi ar gyfer y dull gorfodi arfaethedig ar gyfer y cyfyngiadau hyn. Y bwriad yw deddfu ar gyfer y polisïau hyn gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008.

Rwyf hefyd yn manteisio ar y cyfle i alw am dystiolaeth gan arbenigwyr yn y maes ar effeithiau yfed diodydd egni ar blant, yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynnig i gyfyngu ar eu gwerthiant i blant o dan 16 oed yn 2022. Mae gennyf ddiddordeb yn arbennig mewn tystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau cymdeithasol yfed diodydd egni.

Bydd yr ymgynghoriad hwn a'r alwad am dystiolaeth yn cau ar 23 Medi 2024, ac ar ôl hynny byddwn yn pwyso a mesur yr adborth a dderbyniwyd ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn ymatebion gan gymaint o bobl â phosibl.

**Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

## Cyflwyniad

1. Mae’r cyhoeddiad mewn dwy ran.

2. Pwrpas Rhan 1 yw:

   Gofyn am eich barn ar y dull gorfodi arfaethedig ar gyfer cyfyngu ar gynigion seiliedig ar werth ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr neu halen (HFSS), cyfyngu ar osod cynhyrchion HFSS mewn mannau sy'n annog pobl i'w prynu, a chyfyngu ar hyrwyddo ail-lenwi diodydd wedi’u melysu â siwgr am ddim. Rydym hefyd yn gofyn eich barn ar destun drafft y Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 202X ("y Rheoliadau") a'u heffaith reoleiddiol ddisgwyliedig. Mae'r effaith reoleiddiol ddisgwyliedig wedi'i nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd law yn llaw â'r cyhoeddiad hwn.

3. Y bwriad yw gosod y Rheoliadau gerbron y Senedd yn ystod yr hydref 2024, a chyn belled y ceir cymeradwyaeth y Senedd, byddant yn cael eu gwneud erbyn diwedd 2024, gyda ffenestr weithredu o 12 mis cyn iddynt ddod i rym. Bydd canllawiau ategol yn cael eu cydgynhyrchu â busnesau a chyrff gorfodi cyn i'r ddeddfwriaeth hon gael ei gosod gerbron y Senedd.

4. Mae Llywodraeth Cymru’n gwahodd ymatebion gan unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar y polisi arfaethedig a thestun drafft y Rheoliadau. Rydym yn croesawu'n arbennig ymateb gan fusnesau bwyd a chyrff gorfodi yr effeithir arnynt.

5. Pwrpas Rhan 2 yw:

   Casglu a dwyn ynghyd wybodaeth a thystiolaeth, drwy alwad am dystiolaeth, gan amryw o weithwyr iechyd proffesiynol ac arbenigwyr yn y maes mewn perthynas â diodydd egni sy’n cael eu hyfed gan blant.

## Rhan 1: Cyfyngu ar hyrwyddo cynnyrch uchel mewn braster, siwgr a halen yn ôl lleoliad a phris: Ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft a gorfodaeth

## Nod cyffredinol y polisi

6. Gwyddom fod ein dewisiadau bwyd fel cenedl yn tueddu i gynnwys gormod o fraster, siwgr a halen[1]. Hefyd, gall strategaethau marchnata a hyrwyddo yn y byd manwerthu annog pobl i orfwyta cynhyrchion sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, halen a siwgr (HFSS) ac mae hyn yn cyfrannu at sefyllfa lle mae plant dros eu pwysau neu'n byw gyda gordewdra.

7. Nod y polisi hwn yw gwneud y dewis iach yn ddewis hawsaf i ddefnyddwyr Cymru drwy wneud y canlynol:

   - Cyfyngu ar hyrwyddiadau pris seiliedig ar niferoedd ar gyfer cynhyrchion HFSS y mae tystiolaeth yn dweud y gallant annog gorfwyta. Mae hyn yn cynnwys cynigion aml-eitem (er enghraifft prynu un a chael un am ddim) ac ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd wedi'u melysu â siwgr.
   - Cyfyngu ar osod cynhyrchion bwyd a diod HFSS mewn lleoliadau gwerthu allweddol fel mynedfeydd siopau, mannau talu ac ar ben eil. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall hyn arwain at bŵer plagio a phrynu cynhyrchion HFSS yn fyrbwyll.

## Cynnydd hyd yn hyn

8. Roedd ein hymgynghoriad blaenorol yn gofyn am farn ar y polisi ei hun mewn perthynas â chyfyngiadau hyrwyddo a lleoli. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol yn adlewyrchu cefnogaeth gyffredinol y cyhoedd a'r diwydiant i'r polisi newydd, er bod ymatebion gan y diwydiant yn galw am ddull cyson ledled y DU cyn belled ag y bo modd wrth weithredu'r mesurau. Fodd bynnag, nid oedd yr ymgynghoriad blaenorol yn gofyn am farn ar sut gellid gweithredu neu orfodi'r cyfyngiadau. Ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd, nod yr ymgynghoriad hwn felly yw cyflwyno cynigion penodol mewn perthynas â gorfodi a chasglu barn ar hyn.

9. Rydym yn defnyddio'r cyfle hwn hefyd i ofyn am sylwadau ar y testun penodol yn y Rheoliadau drafft, yn arbennig gan fusnesau ac asiantaethau gorfodi a fydd yn gorfod cydymffurfio â nhw. Nid ydym yn ceisio ailedrych ar benderfyniadau polisi ynghylch y cyfyngiadau, ond sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn glir ac yn ddiamwys ac y gellir ei gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd wedi'i deddfu. Bydd y Rheoliadau drafft arfaethedig yn adlewyrchu'r rhai sydd eisoes mewn grym yn rhannol yn Lloegr.

[1] Llywodraeth Cymru. (2019). Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau ar gyfer Blynyddoedd 5 i 9 o'r Rhaglen Dreigl i Gymru (2012/2013 – 2016/2017) a dadansoddiad o dueddiadau dros amser ac incwm (Blynyddoedd 1 i 9; 2008/09 – 2016/17)

## Crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig

10. Bydd y Rheoliadau, pan fyddant mewn grym, yn cyfyngu ar hyrwyddo a lleoli cynhyrchion HFSS yn y ffyrdd canlynol:

    - Bydd **cyfyngiadau ar leoliadau** yn gwahardd manwerthwyr rhag gosod cynhyrchion HFSS mewn lleoliadau penodol a byddant yn berthnasol i fynedfeydd siopau, pen draw eil a mannau talu/ciwio a'r hyn sy'n cyfateb ar-lein (er enghraifft, tudalen mynediad gwefannau, tudalennau glanio ar gyfer categorïau bwyd eraill, a thudalennau basged siopa a thalu).

    - Bydd **cyfyngiadau ar hyrwyddiadau pris ar sail swmp** yn gwahardd manwerthwyr rhag hyrwyddo, yn y siop ac ar-lein, cynigion ar gynhyrchion HFSS sy'n nodi bod cynnyrch, neu unrhyw ran o gynnyrch, yn rhad ac am ddim (fel "prynu un a chael un am ddim") a chynigion aml-eitem, sy'n golygu cynnig penodol o gymhelliant ariannol am brynu eitemau lluosog o gymharu â'r pris ar gyfer prynu pob eitem ar wahân (fel cynigion "3 am 2"). Bydd y cyfyngiadau'n berthnasol i gynigion sydd wedi'u cynnwys ar ddeunydd pecynnu cynhyrchion yn ogystal ag i gynigion sy'n cael eu cyfleu i ddefnyddwyr drwy ddulliau eraill. Bydd cyfnod pontio o 12 mis o'r adeg pan ddaw'r cyfyngiadau i rym mewn perthynas â chynigion sydd wedi'u cynnwys ar ddeunydd pecynnu cynhyrchion.

    - Bydd **cyfyngiadau ar hyrwyddo ail-lenwi am ddim** yn gwahardd manwerthwyr a'r sector y tu allan i'r cartref rhag hyrwyddo i ddefnyddwyr y cynnig o roi diod sydd wedi'i melysu â siwgr heb ei phecynnu ymlaen llaw neu ddiod arall debyg (gan gynnwys ail-lenwi am ddim) am ddim ar ôl yfed y gyntaf.

    Mae'r Rheoliadau drafft isod yn rhoi manylion llawn y darpariaethau i gyflwyno'r polisi hwn. Roedd yr ymgynghoriad blaenorol a gynhaliwyd yn 2022 yn ystyried cyflwyno cyfyngiadau ar fathau eraill o hyrwyddiadau ar sail pris hefyd, fel gostyngiadau dros dro mewn prisiau a bargeinion pryd bwyd. Rydym yn parhau i archwilio'r opsiynau a'r dystiolaeth berthnasol mewn perthynas â'r meysydd hyn ac mae'r cynigion yn parhau i gael eu hystyried ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol.

## Cynhyrchion sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau

11. Y cynhyrchion o fewn y cwmpas fydd y rhai yr ystyrir eu bod yn cynnwys lefelau uchel o fraster, siwgr a halen (HFSS). Bydd Model Proffilio Maethynnau 2004/2005 yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio a yw cynnyrch yn un HFSS ai peidio.

12. Yn ogystal â chael eu hystyried yn HFSS, bydd angen i gynhyrchion berthyn i gategorïau penodol er mwyn bod o fewn cwmpas y cyfyngiadau. Bydd bwyd a diod wedi'i becynnu ymlaen llaw yn y categorïau canlynol o fewn cwmpas y cyfyngiadau:

- diodydd ysgafn â siwgr wedi’i ychwanegu, sydd o fewn cwmpas y dreth ar y diwydiant diodydd ysgafn
- cacennau
- melysfwyd siocled
- melysfwyd siwgr
- hufen iâ
- nwyddau boreol (er enghraifft cynhyrchion crwst)
- pwdinau a phwdinau llaeth
- bisgedi melys, grawnfwydydd brecwast
- iogwrt
- diodydd llaeth â siwgr wedi’i ychwanegu
- diodydd sudd â siwgr wedi’i ychwanegu
- pizza
- prydau parod
- canolbwynt prydau
- cynhyrchion mewn briwsion bara a chytew
- creision a byrbrydau sawrus
- sglodion a chynhyrchion tatws tebyg.

13. Bydd y cyfyngiadau’n berthnasol hefyd i ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd wedi'u melysu â siwgr yn y sector y tu allan i'r cartref (er enghraifft bwytai a siopau coffi).

14. Nid yw cynhyrchion heb eu pecynnu ymlaen llaw (ac eithrio ail-lenwi diodydd wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector y tu allan i'r cartref) a gwerthiant bwyd elusennol o fewn y cwmpas.

## Y busnesau sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau

15. Yn gyffredinol, bydd y cyfyngiadau’n gymwys i fanwerthwyr canolig a mawr (â 50 neu ragor o weithwyr), gan gynnwys siopau grŵp symbol neu siopau masnachfraint lle mae 50 neu ragor o weithwyr yn gweithredu o dan yr enw busnes hwnnw.

16. Mae nifer o eithriadau busnes rhag yr holl gyfyngiadau neu rai ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - rhai lleoliadau gofal cymdeithasol (er nad yw'n cynnwys cartrefi plant)
    - sefydliadau milwrol
    - sefydliadau addysgol
    - bwytai (wedi'u heithrio rhag cynigion pris a lleoliad, ac eithrio yn achos ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd wedi'u melysu â siwgr)
    - manwerthwyr sydd â gofod llawr siop perthnasol o lai na 2000 troedfedd sgwâr (wedi'u heithrio rhag cynigion lleoliad yn unig)
    - busnesau bach a micro (49 neu lai o weithwyr)

- busnesau arbenigol sydd ond yn gwerthu un math o gynnyrch o fewn y categorïau cynnyrch o fewn y cwmpas (wedi'u heithrio rhag cynigion lleoliad yn unig).

## Gorfodi'r Polisi

17. Ni ofynnodd yr ymgynghoriad cychwynnol am farn ar orfodi'r cyfyngiadau arfaethedig. Felly, rydym yn gofyn barn ar hyn nawr ac ar y Rheoliadau drafft sy'n cynnwys darpariaeth i ddarparu ar gyfer cyfundrefn benodol ar gyfer gorfodi a sancsiynau.

Deddf Diogelwch Bwyd 1990

18. Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu defnyddio hysbysiadau gwella lle nad oes cydymffurfiaeth â'i mesurau. Mae hysbysiadau o'r fath yn rhoi cyfle i fusnes bwyd ymgymryd â mesurau cywiro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau. Os yw person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella, mae'n euog o drosedd, a gall hyn arwain at gyflwyno cosb droseddol o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008

19. Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol osod cosbau ariannol penodedig (fel cosb sifil amgen) i droseddau a gyflawnwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Mae’r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rheoleiddiwr (yn yr achos hwn, awdurdodau lleol) sefydliadau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli personau yr effeithir arnynt yn sylweddol gan y cynigion ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol. Bwriad yr ymgynghoriad hwn, felly, yw cyflawni'r gofyniad hwnnw.

Y dull arfaethedig

20. Mae'r adborth rydym wedi'i gael hyd yma gan gyrff y diwydiant a swyddogion gorfodi wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cysondeb ledled y DU lle bo hynny'n bosibl o ran dull gweithredu. Rydym yn cynnig felly ein bod yn adlewyrchu'r dull gorfodi a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU, yn hynny o beth:

- bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r polisi (drwy eu swyddogion gorfodi awdurdodedig). Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod swyddogion gorfodi’n arolygu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau yn ystod ymweliadau gorfodi; yn cynnal sgyrsiau cefnogol gyda busnesau i atal neu unioni achos o dorri'r rheoliadau; ac yn cymryd camau gorfodi pellach lle bo angen fel yr amlinellir isod.
- bydd y broses orfodi yn canolbwyntio ar gefnogi cydymffurfiaeth yn hytrach na chosbi diffyg cydymffurfio, sydd fwyaf addas.
- bydd amrywiaeth o opsiynau gorfodi ar gael i awdurdodau lleol, er enghraifft, yr opsiwn o gosbau sifil fel dewis arall yn lle cosbau troseddol.

21. Cynigir y bydd awdurdod lleol yn gallu cyflwyno hysbysiad gwella lle mae ganddo sail resymol dros gredu bod busnes yn methu â chydymffurfio ag un neu ragor o'r cyfyngiadau. Byddai'n rhaid i'r hysbysiad gwella ddatgan rheswm yr awdurdod lleol dros gredu y bu methiant i gydymffurfio, nodi'r materion sy'n golygu bod methiant i gydymffurfio a'r mesurau y mae'n rhaid eu cymryd, ym marn yr awdurdod, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a mynnu bod y mesurau hynny (neu fesurau sy'n gyfwerth â hwy o leiaf) yn cael eu cymryd o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad. Os caiff hysbysiad gwella ei herio, bydd proses apelio i'r Llys Ynadon a fydd yn 'stopio’r cloc' i bob pwrpas i ganiatáu amser i gydymffurfio, hyd nes y bydd yr apêl wedi'i phenderfynu. Gall peidio â chydymffurfio â hysbysiad gwella arwain at gyflawni trosedd, a allai gael dirwy ddiderfyn fesul trosedd yn sgil euogfarn ddiannod. Ystyrir dirwy ddiderfyn yn fecanwaith gorfodi mwy cymesur na charcharu am y drosedd bosibl hon, gan adlewyrchu difrifoldeb diffyg cydymffurfio hefyd.

22. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod cosbau o dan y Rheoliadau’n gallu mynd i'r afael ag amgylchiadau unigol pob achos, rydym yn cynnig bod methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella’n arwain at yr opsiwn o roi cosb ariannol benodedig o £2,500 hefyd, fel cosb sifil amgen yn lle erlyn, lle mae'r awdurdod lleol yn fodlon y tu hwnt i amheuaeth resymol bod trosedd wedi'i chyflawni. Mae swm y gosb ariannol benodedig hon yn cyd-fynd â darpariaethau presennol o fewn rheoliadau cyfatebol Llywodraeth y DU i gynnal dull teg a chyson.

23. Mae’r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau’n amlinellu'r weithdrefn ar gyfer rhoi cosb ariannol benodedig. O dan y Rheoliadau, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad o fwriad o'r hyn a gynigir wrth gynnig gosod cosb ariannol benodedig. Byddai'r hysbysiad o fwriad yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 2 o’r Rheoliadau drafft. Byddai cyfle i ryddhau rhag y gosb arfaethedig os yw person sy'n cael yr hysbysiad o fwriad yn talu 50% o swm y gosb o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau o'r diwrnod y derbyniwyd yr hysbysiad. Gallai'r person sy'n derbyn yr hysbysiad o fwriad, o fewn yr un cyfnod o 28 diwrnod, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a gwrthwynebiadau i'r awdurdod lleol hefyd mewn perthynas â gosod y gosb arfaethedig.

24. Ar ôl penderfynu p'un ai i osod y gosb ariannol benodedig, gall yr awdurdod lleol, wedi hynny, gyflwyno hysbysiad terfynol yn gosod y gosb, os nad yw'r gosb wedi'i rhyddhau o fewn y cyfnod o 28 diwrnod. Byddai'r hysbysiad terfynol yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 6 o'r Rheoliadau drafft. Byddai awdurdod lleol ond yn cael cyflwyno hysbysiad terfynol os yw'n fodlon na fyddai'r person, oherwydd unrhyw amddiffyniad, yn agored i gael ei gollfarnu am y drosedd y mae'r hysbysiad terfynol yn ymwneud â hi. Ni fyddai awdurdod lleol yn gallu cyflwyno unrhyw hysbysiad arall chwaith o dan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r drosedd, pan fo hysbysiad terfynol wedi'i gyflwyno. Gall person a wnaeth sylwadau a gwrthwynebiadau, o fewn y terfyn amser, ar ôl cael hysbysiad o fwriad, barhau i ryddhau'r gosb drwy dalu 50% o'r gosb o fewn 14 diwrnod, gan ddechrau o'r diwrnod y derbyniwyd yr hysbysiad terfynol.

25. Ar ôl cael hysbysiad terfynol, byddai'n rhaid talu'r gosb o fewn 28 diwrnod neu gellid apelio yn erbyn yr hysbysiad i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, ar sail yr hyn a nodir yn rheoliad 8 o’r Rheoliadau drafft. Byddai'r hysbysiad terfynol yn cael ei atal dros dro gan fod apêl ar y gweill. Byddai'n rhaid i berson nad yw'n apelio dalu cosb uwch (o 50%) os na thelir y gosb o fewn 56 diwrnod. Yn achos apêl, os yw'n aflwyddiannus, byddai'r gosb yn daladwy o fewn 14 diwrnod i benderfyniad yr apêl ac, os na chaiff ei thalu o fewn 14 diwrnod, byddai swm y gosb yn cynyddu (50%). Byddai cyflwyno hysbysiad o fwriad yn atal awdurdod lleol rhag gweithredu cosb droseddol am y drosedd am 28 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad o fwriad gael ei roi, ac ar unrhyw adeg os yw'r person yn rhyddhau ei atebolrwydd drwy dalu'r gosb. Pan fo cosb ariannol benodedig yn cael ei gosod yn y pen draw, byddai hyn yn atal cosb droseddol am y drosedd rhag cael ei gweithredu hefyd.

## Gofynion ychwanegol

Arweiniad

26. O dan Reoliad 13 o'r Rheoliadau arfaethedig, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi canllawiau ynghylch eu defnydd o'r pŵer i osod cosbau ariannol penodedig a rhoi sylw dyledus i'r canllawiau wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau. Rhaid iddynt gynnal ymgynghoriad hefyd cyn cyhoeddi neu ddiwygio canllawiau o'r fath. Rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am:

(a) yr amgylchiadau pan fo cosb ariannol benodedig yn debygol o gael ei gosod o dan y Rheoliadau hyn,
(b) yr amgylchiadau pan na chaniateir ei gosod,
(c) swm y gosb,
(d) sut y caniateir cael rhyddhad rhag atebolrwydd am y gosb ac effaith y rhyddhad hwnnw, ac
(e) hawliau person i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a'i hawliau apelio.

Cyhoeddi adroddiadau

27. O dan Reoliad 14 o'r Rheoliadau arfaethedig, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad am y camau gorfodi y mae wedi’u cymryd o dan y Rheoliadau hyn. Rhaid i'r adroddiad bennu:

a) yr achosion y gosodwyd cosb ariannol benodedig ynddynt (yn amodol ar eithriadau), ac
b) yr achosion y cafwyd rhyddhad rhag atebolrwydd am y gosb ariannol benodedig ynddynt.

Adolygu

28. O dan Reoliad 15 o'r Rheoliadau arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd gynnal adolygiad o ddarpariaethau rheoleiddiol y Rheoliadau

hyn a chyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r adolygiad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn pum mlynedd wedi i'r Rheoliadau hyn ddod i rym a rhaid cyhoeddi adroddiadau dilynol bob pum mlynedd o leiaf. Rhaid i adroddiad a gyhoeddir o dan y rheoliad hwn:

a) nodi'r amcanion y bwriedir eu cyflawni gan ddarpariaethau rheoleiddiol y Rheoliadau hyn
b) asesu i ba raddau y cyflawnir yr amcanion hynny
c) asesu i ba raddau y mae'r amcanion hynny’n parhau'n briodol
d) os yw'r amcanion hynny’n parhau'n briodol, asesu i ba raddau y gellid eu cyflawni mewn ffordd arall sy'n cynnwys darpariaeth reoleiddiol lai beichus

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

29. Bydd yr holl ymatebion a ddaw i law erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, sef 23 Medi 2024, yn cael eu hystyried yn ofalus. Bydd adroddiad cryno o’r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

## Offeryn Statudol Drafft

Rydym wedi cyhoeddi'r Offeryn Statudol drafft y mae'r ymgynghoriad hwn yn cyfeirio ato ar brif dudalen yr ymgynghoriad. Cyfeiriwch at 'Atodiad 1 – Offeryn Statudol Drafft'.

# Cwestiynau Ymgynghori

Os oes gennych dystiolaeth benodol neu brofiad ymarferol i gefnogi eich barn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu tystiolaeth a phrofiad o'r fath yn eich ymateb i bob cwestiwn.

## Y Rheoliadau Drafft

**Cwestiwn 1:**

A yw'r Rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau hyrwyddo a lleoli yn gywir ac yn glir er mwyn i asiantaethau busnes a gorfodi allu eu gweithredu a'u gorfodi?

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno â'r disgrifiadau arfaethedig, nodwch sut y byddech chi'n disgrifio'r cyfyngiadau.

**Cwestiwn 2:**

A yw'r Rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau ail-lenwi am ddim yn gywir ac yn glir er mwyn i asiantaethau busnes a gorfodi allu eu gweithredu a'u gorfodi?

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno â'r disgrifiadau arfaethedig, nodwch sut y byddech chi'n disgrifio'r cyfyngiadau.

## Cyfyngiadau pen draw eil

Un gwahaniaeth bach rhwng y Rheoliadau arfaethedig i Gymru a'r rheoliadau cyfatebol presennol yn Lloegr yw sut y bydd cyfyngiadau pen draw eil yn gymwys o fewn amgylchedd manwerthu ffisegol (mewn siop) busnes cymwys:

Mae Rheoliad 7(1)(c)(i) o Reoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021 yn nodi na ddylai busnes cymwys leoli bwydydd HFSS y tu mewn i siop mewn arddangosiad sydd 'at the end of (but not in) an aisle, <u>where the aisle end is adjacent to a main customer route through the store</u>', neu 'on a separate structure (such as an island bin, free-standing unit, side stack or clip strip) connected or adjacent to, or within 50cm of, such an aisle end'.

Cynigir na ddylai busnes cymwys, ar gyfer cyfyngiadau pen draw eil yng Nghymru o dan Reoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 202X, leoli bwydydd HFSS y tu

mewn i siop mewn arddangosiad 'sydd ar ben draw'r eil (ond nid yn yr eil)' na 'sydd ar strwythur ar wahân (megis bin ynys, uned annibynnol, pentwr ochr neu stribed clip) sydd wedi ei gysylltu â phen draw eil o'r fath neu'n gyfagos iddo, neu o fewn 50 cm iddo'.

Mae hyn yn golygu y bydd y cyfyngiadau pen draw eil yng Nghymru yn gymwys ni waeth a yw pen draw eil ger prif lwybr cwsmeriaid drwy'r siop ai peidio.

Mae'r adborth rydym wedi'i gasglu hyd yma gan gyrff y diwydiant a swyddogion gorfodi wedi nodi ei bod yn anodd penderfynu beth yw 'prif lwybr cwsmeriaid' mewn lleoliadau manwerthu unigol. Er ein bod yn dal yn agored i adlewyrchu disgrifiad Llywodraeth y DU o'r cyfyngiad hwn yng Nghymru, ein barn ni yw y byddai estyn y cyfyngiad hwn i gwmpasu pob pen draw eil yn helpu busnesau cymwys a swyddogion gorfodi i ddeall pa eiliau pen sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau ac yn cael gwared ar yr angen iddynt bennu'r prif lwybrau a ddefnyddir gan gwsmeriaid mewn lleoliadau manwerthu penodol.

**Cwestiwn 3:**

Ydych chi'n rhag-weld y bydd y gwahaniaeth yn y ffordd y mae cyfyngiadau pen draw eil wedi'u cyflwyno yn Lloegr ac yn rheoliadau cyfatebol Cymru yn achosi unrhyw heriau gweithredol i fusnesau bwyd cymwys neu swyddogion gorfodi?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb.

## Gorfodi

**Cwestiwn 4:**

A ddylai awdurdodau lleol roi hysbysiadau gwella mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfyngiadau fel y cam ffurfiol cyntaf, fel y nodir ym mharagraff 21 uchod?

Dylent

Na ddylent

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno â'r dull arfaethedig, nodwch pa ddull y byddech chi'n hoffi ei weld yn lle hynny.

**Cwestiwn 5:**

A oes amgylchiadau lle na fydd hysbysiad gwella yn briodol?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 6:**

Os bydd busnes yn methu â bodloni telerau hysbysiad gwella, a yw cosb ariannol benodedig o £2,500 yn briodol, fel y nodir ym mharagraff 22 uchod?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno â'r dull arfaethedig, nodwch pa ddull y byddech chi'n hoffi ei weld yn lle hynny.

**Cwestiwn 7:**

A oes amgylchiadau lle gallai dull gwahanol fod yn fwy priodol?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb. Os atebwyd 'oes', esboniwch yr amgylchiadau penodol a'r dull gorfodi a ffefrir.

**Cwestiwn 8:**

A yw 28 diwrnod yn gyfnod priodol i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau neu i ryddhau atebolrwydd am hysbysiad o fwriad, fel y nodir ym mharagraff 23 uchod?

Mae'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau yn nodi mai 28 diwrnod yw'r cyfnod hiraf y gellir ei ganiatáu, felly rhaid i unrhyw awgrymiadau amgen fod yn llai na 28 diwrnod.

Ydy

Nac ydy

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 9:**

Pan fo cosb ariannol benodedig wedi'i rhoi, er enghraifft, am fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella, a ddylai person allu ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd ar ôl cael cosb ariannol benodedig, a hynny ar gyfradd o 50% o'r gosb a roddwyd, fel y nodir ym mharagraff 23 uchod?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 10:**

A yw 28 diwrnod yn amser priodol i dalu neu apelio yn erbyn hysbysiad terfynol, fel y nodir ym mharagraff 25 uchod?

Mae'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau yn nodi mai 28 diwrnod yw'r cyfnod hiraf y gellir ei ganiatáu, felly rhaid i unrhyw awgrymiadau amgen fod yn llai na 28 diwrnod.

Ydy

Nac ydy

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 11:**

A ddylai methu â thalu neu apelio yn erbyn cosb o fewn 28 diwrnod arwain at gynnydd o 50% yn y gosb, fel y nodir ym mharagraff 25 uchod?

Dylai

Na ddylai

Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb.

## Canllawiau ategol

**Cwestiwn 12:**

A oes unrhyw feysydd y mae angen eu nodi mewn canllawiau i ganiatáu i fusnesau weithredu'r polisi yn llwyddiannus?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 13:**

A oes unrhyw feysydd y mae angen eu pennu mewn canllawiau i ganiatáu i asiantaethau gorfodi weithredu'r polisi yn llwyddiannus?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod.

Esboniwch eich ateb.

## Asesiadau Effaith

Rydym wedi cyhoeddi nifer o asesiadau effaith drafft ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn a byddem yn croesawu eich barn arnynt.

**Cwestiwn 14:**

O fewn eich maes diddordeb penodol chi, pa heriau (os oes rhai o gwbl) yn sgil y Rheoliadau arfaethedig, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

**Cwestiwn 15:**

O fewn eich maes diddordeb penodol chi, pa effeithiau cadarnhaol (os oes rhai o gwbl) yn sgil y Rheoliadau arfaethedig, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

**Cwestiwn 16:**

A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y casgliadau sy'n dod i'r amlwg yn yr asesiadau effaith drafft ar gyfer y Gymraeg, Hawliau Plant, neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Os felly, i gefnogi'ch sylwadau, pa dystiolaeth ydych chi'n teimlo y dylid ei hystyried ymhellach o fewn eich maes diddordeb chi'n benodol? Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn pennu nodweddion gwarchodedig sy'n cynnwys oedran;

crefydd neu gred; hil; cyfeiriadedd rhywiol; rhyw; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; ac anabledd.

**Cwestiwn 17:**

a. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Rheoliadau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
b. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
c. Ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Cwestiwn 18:**

Yn eich barn chi, a ellid ffurfio'r Rheoliadau neu eu newid er mwyn:

a. cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
b. liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

## Sylwadau ychwanegol

**Cwestiwn 19:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt.

## Rhan 2: Galwad am dystiolaeth mewn perthynas â diodydd egni sy'n cael eu hyfed gan blant

### Pwrpas yr alwad am dystiolaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i gyfyngu ar werthu diodydd egni i blant o dan 16 oed yn 2022. Roedd 72% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig, yn enwedig ymatebwyr o iechyd y cyhoedd, y sector addysg a sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr o'r diwydiant bwyd a diod, fodd bynnag, eu bod yn gwrthwynebu'n gryf i waharddiad ac roeddent yn teimlo nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi gweithredu cyfyngiadau ar werthiant yn seiliedig ar oed.

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn canolbwyntio ar rai cwestiynau yn ymwneud ag yfed diodydd egni mewn plentyndod yr hoffai Llywodraeth Cymru gael rhagor o dystiolaeth arnynt. Y rhain yw:

- Effeithiau ar iechyd – gan gynnwys iechyd meddyliol a chorfforol
- Yr effaith ehangach ar gymdeithas
- Ymddygiad prynu ac yfed
- Marchnata
- Y gallu i weithredu'r cyfyngiadau presennol ar werthiant, a'u heffaith
- Effeithiau ehangach ar yr economi
- Effeithiau ar wahanol grwpiau o bobl.

### I bwy mae hyn yn berthnasol?

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymatebion gan bob sefydliad perthnasol, yn enwedig:

- Ymarferwyr Iechyd y Cyhoedd
- Athrawon
- Academyddion sy'n gweithio yn y maes
- Gweithwyr ieuenctid
- Y sector manwerthu mewn perthynas â gweithredu.

### Canllawiau i'ch helpu i ymateb

Er ein bod yn croesawu pob tystiolaeth ar y pwnc, rydym wedi rhestru nifer o feysydd isod y mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed amdanynt. Does dim rhaid i chi ddarparu tystiolaeth yn ymwneud â phob maes rydym wedi'i nodi. Rhowch dystiolaeth ar y meysydd y mae gennych wybodaeth berthnasol amdanynt.

#### Effeithiau ar iechyd a phryderon cymdeithasol ehangach

Tystiolaeth o effeithiau yfed diodydd egni ar iechyd (corfforol a meddyliol) plant, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol a thystiolaeth o bryderon cymdeithasol ehangach, er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:

Tystiolaeth o gysylltiadau gydag ymddygiadau risg uchel fel y defnydd o alcohol, cyffuriau neu dybaco, anhwylderau bwyta, triwantiaeth.

A yw’r dystiolaeth rydych chi wedi’i chyflwyno yn ymwneud â grŵp oedran penodol?

Ydy – o dan 16

Ydy – o dan 18

Nac ydy

Ddim yn siŵr

**Ymddygiad prynu a defnyddio**

Tystiolaeth o arferion prynu a defnyddio diodydd egni mewn plant, er enghraifft, o’i gymharu â chynhyrchion eraill sy’n cynnwys caffein, fel te a choffi.

A yw’r dystiolaeth rydych chi wedi’i chyflwyno yn ymwneud â grŵp oedran penodol?

Ydy – o dan 16

Ydy – o dan 18

Nac ydy

Ddim yn siŵr

**Marchnata**

Tystiolaeth ar effaith marchnata diodydd egni ar blant mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys ar-lein.

A yw’r dystiolaeth rydych chi wedi’i chyflwyno yn ymwneud â grŵp oedran penodol?

Ydy – o dan 16

Ydy – o dan 18

Nac ydy

Ddim yn siŵr

**Gweithredu**

Tystiolaeth ar effaith gwaharddiadau gwirfoddol ar werthiant diodydd egni i rai o dan 16 oed, a weithredir gan rai manwerthwyr bwyd.

Tystiolaeth ar y dulliau o orfodi, gan gynnwys sut y mae gwledydd eraill wedi ymdrin â gorfodi mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys ar-lein.

**Effaith economaidd**

Tystiolaeth o'r costau i gymdeithas o ganlyniad i blant yn yfed diodydd egni.

**Effaith yfed diodydd egni ar wahanol grwpiau**

Tystiolaeth o sut y mae'r grwpiau canlynol o blant wedi'u heffeithio gan yfed diodydd egni:

- Y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol isel
- Y rhai â nodweddion gwarchodedig, fel y nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig
- Y rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol

A yw'r dystiolaeth rydych chi wedi'i chyflwyno yn ymwneud â grŵp oedran penodol?

Ydy – o dan 16

Ydy – o dan 18

Nac ydy

Ddim yn siŵr